

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi crynodeb manwl o'r cwrs MA Theatr Gerddorol a gynigir o fis Medi 2019. A fydddech cystal â nodi er bod y wybodaeth yn adlewyrchu'r rhaglen a gynigir hyd yma, gall gael ei haddasu a'i newid mewn blynyddoedd i ddod. Ymgynghorir bob amser â myfyrwyr ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Er mwyn symud drwy'r cwrs bydd angen i'r myfyrwyr fel arfer lwyddo ym mhob modiwl ac ennill 180 o gredydau.

### Trosolwg o'r Cwrs

Cynlluniwyd y rhaglen i bontio'r bwch rhwng gradd, neu brofiad perthnasol arall, a'r safon uchel a ddisgwyllir gan gyflogwyr yn y diwydiant theatr gerddorol proffesiynol.

Cewch eich addysgu drwy amrywiaeth o wahanol ddulliau a fydd yn cynnwys ymchwil unigol a grŵp, tiwtorialau, gwaith dosbarth, rihyrsal ymarferol, gweithdai gyda gweithwyr proffesiynol y diwydiant, perfformiadau caeedig ac agored, adborth a hunanwerthuso.

Darperir yr hyfforddiant gan dîm o ymarferwyr proffesiynol sydd wedi hen ennill eu plwyf, gyda chefnogaeth gan diwtoriaid, cyfarwyddwyr, cyfarwyddwyr cerdd, coreograffwyr, cyfarwyddwyr castio ac asiantau ar ymweliad - gan greu cysylltiad hollbwysig rhwng yr hyfforddiant ac arfer proffesiynol cyfredol.

Mae'r rhaglen gradd meist'r yn cwmpasu'r chwe modiwl craidd canlynol, a addysgir dros y flwyddyn.

### Sgiliau Actio Uwch

40 credyd

#### *Testun a Rihyrsal*

Mae dosbarthiadau ymarferol, gweithdai a rihyrsals yn creu'r amgylchedd gweithio lle gallwch chi fel actor ymchwilio heriau, cyfleoedd a nodweddion hollbwysig testun neu destunau a roddir gyda phwyslais penodol ar ddatblygu cymeriad a pherthynas.

#### *Gwaith Byrffyr*

Trwy gyfres o wahanol sefyllfaoedd addysgu byddwch yn archwilio fel actor yr heriau, y cyfleoedd a'r nodweddion hollbwysig a gynigir drwy berfformiad byrffyr a digymell.

#### *Astudiaethau Cyd-destunol a Phroffesiynol*

Cyfres o sesiynau ymarferol a rihyrsals sydd wedi'u cynllunio i'ch paratoi ar gyfer clyweliadau proffesiynol ym meysydd y theatr a theledu ac ar gyfer eich cyflwyniadau Llwyfan terfynol, a gynhelir gerbron cynulleidfa wadd o weithwyr y proffesiwn.

### Sgiliau Llais Uwch

20 credyd

Trwy gyfres o ddosbarthiadau ymarferol ym maes llais siarad byddwch yn dysgu'r technegau sy'n ddisgwylliedig gan actor/cantor sydd ar fin mynd i mewn i'r proffesiwn. I ddechrau mae'r cwrs yn canolbwyntio ar gael gwared ar unrhyw arferion seicolegol annefnyddiol cyn eich galluogi i archwilio ac ehangu eich llais fel paratoad ar gyfer hyfforddiant i ddefnyddio eich llais siarad yn effeithiol mewn perfformiad heb oruchwyliaeth. Mae'n cynnwys gwaith ar dafodiaith ac acenion.

### Sgiliau Canu Uwch

40 credyd

#### *Techneg a Repertoire*

Byddwch yn datblygu techneg canu ddeallus a chadarn ym mhob agwedd ar y llais canu drwy ymarferion ymarferol ac astudiaeth repertoire. Rhoddir pwyslais arbennig ar ddefnydd seicolegol priodol a dadansoddiad deallus o repertoire.

Cewch hefyd yr arfau i barhau gyda'ch datblygiad proffesiynol eich hun drwy nodi, gwerthuso a defnyddio arfer gorau a methodolegau arloesol yn annibynnol.

#### *Actio Drwy Gân*

Bydd y prosiect hwn yn ceisio gwneud y defnydd gorau o botensial mynegiannol a naratif cân, gan gadw uniondeb cerddorol hanfodol tra'n parhau'n driw i nodweddion actio allweddol yn ymwneud â pherchnogi cymeriad a pherthynas.

#### *Canu Ensemble a Gallu Cerddorol*

Byddwch yn ymchwilio i sut mae eich llais a'ch techneg yn ymdoddi'n llwyddiannus gydag eraill drwy waith effeithiol ar sgiliau harmoni ac ensemble, a gallu cerddorol.

### Sgiliau Symud a Dawnsio Uwch

20 credyd

#### *Dawns*

Trwy ddosbarthiadau ymarferol byddwch yn datblygu gwahanol arddulliau dawnsio (bale, jazz, cyfoes a thap), ac yn dysgu dilyniannau wedi'u coreograffio ar lefelau cynyddol o fanylder a chyflymder. Byddwch yn derbyn hyfforddiant symud penodol a rihyrsals sydd wedi'u bwriadu i'ch paratoi ar gyfer clyweliadau proffesiynol a chynyrchiadau penodol.

#### *Sgiliau Symud*

Byddwch yn darganfod eich galluoedd personol ar gyfer symud rhydd a mynegiannol a sut i'w defnyddio'n effeithiol mewn cyfathrebu theatraidd. Byddwch yn archwilio ac yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd dull corfforol mewn hyfforddiant a bywyd actor/cantor/dawnsiwr, gan ganiatáu i chi weithio gan ddefnyddio eich menter eich hun ar y lefel uchaf.

### Perfformiad Cyhoeddus

40 credyd

Rhoddir cyfle i chi rihyrsio a pherfformio nifer o rolau o dan gyfarwyddyd proffesiynol ac amodau cynhyrchu, yn aml gyda chyflogwyr posibl yn gwylio. Perfformir amrywiaeth eang o ddeunydd mewn ystod o gyd-destunau perfformio, sy'n gofyn am gymhathiad a chyfuniad chwim sgiliau sy'n deillio o'ch hyfforddiant tra'n defnyddio dirnadaeth a barn briodol.

### Astudiaethau Proffesiynol Cyd-destunol ac Uwch

20 credyd

Bydd y modiwl hwn yn eich paratoi ar gyfer gweithio yn y proffesiwn Theatr Gerddorol drwy gaffael gwybodaeth uwch a chynhwysfawr o strwythurau a phrotocolau'r diwydiant, wedi'u cyfuno â'r gallu i fyfyrion feirniadol ar eich potensial, sgiliau, datblygiad a chynaliadwyedd eich hun o fewn y cyd-destun hwn.